YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

Tymor y Gwanwyn (i) 2020 – Dosbarth Bl 1 a 2 Mrs Williams, Mr Jones a Mrs Evans

# Bant â ni i gynllunio!




Hoffwn ddysgu geiriau iaith arall

Pawb

Pa fwydydd mae pobl yn bwyta ar draws y byd?

Isla

Oes gan bob gwlad gân neu anthem arbennig?

Sophia

Pa grefydd sydd gan wahanol wledydd?

Sophia

Beth mae pobl yn gwisgo mewn gwahanol wledydd?

James

Pa dywydd mae pob gwlad yn ei gael?

Martha

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

Tymor y Gwanwyn (i) 2020 – Dosbarth Bl 1 a 2 Mrs Williams, Mr Jones a Mrs Evans

# Thema'r tymor yw: **Y Byd Mawr Crwn**

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Dysgu sut i gadw'n ddiogel ar y we a defnyddio offer TGCh yn ddiogel.
- Cyfathrebu ein syniadau trwy gyfrwng amrywiol ddulliau gan ddefnyddio offer cyfrifiadurol.
- Cynllunio ac adeiladu amrywiol adeiladau a gwrthrychau gan ddefnyddio offer o bob math.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Datblygu sgiliau cymysgu paent a pheintio tirluniau.
- Dysgu caneuon newydd a gwrando ar gerddoriaeth o Gymru ac o wledydd eraill.
- Datblygu ein sgiliau dawnsio creadigol a dawnsio gwerin.

**Y Dyniaethau**

- Defnyddio sgiliau ymchwilio daearyddol er mwyn cymharu Cymru ac ardal Abertawe gyda gwlad arall. (Rydyn ni wedi cynnal pleidlais er mwyn dewis gwlad i'w hastudio.)
- Cymharu ffactorau megis y tywydd, y boblogaeth, nodweddion daearyddol, a ffordd o fyw yn y ddwy wlad.
- Rhyfeddu at harddwch a gwerthfawrogi'r byd o'n cwmpas.

**Iechyd a Lles**

- Ymarfer a datblygu ein sgiliau corfforol a pharhau i wella ein ffitrwydd.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.
- Mwynhau'r syniad o berthyn i'n cymuned leol ac i Gymru.
- Mwynhau darganfod ynglŷn â sut y mae pobl eraill mewn gwahanol lefydd yn y byd yn byw.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener. Rhaid i ni geisio ei ddychwelyd ar ddydd Llun.

Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Bl.2)

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Creu cornel chwarae 'I ble'r awn ni heddiw?' a mwynhau teithio ar ein carped hud .
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan gynnwys cofnodi ffeithiau ac ysgrifennu cerdyn post.
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio a thynnu i ffwrdd.
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur pwysau a dysgu am siap a chymesuredd.
- Chwarae llawer o gemau mathemateg pen.

**Ymweliadau**

Traeth Abertawe – dyddiad i'w gadarnhau

Parc Brynmill – i'w gadarnhau